



**Teitl y cyfarfod:** Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol WBP

**Dyddiad y cyfarfod:** 4 Hydref 2023

**Lleoliad:** MS Teams

**Amser y cyfarfod:** 10.00 – 12.30

**Yn bresennol:** **LIC:** Leasa Fielding (Cadeirydd), Alison Smith, Karen Stothard, Tom Warren  
**WBP:** Michaela Scrivin (ysgrifenyddiaeth)  
**Arall:** Beverley Lewis (APCBB), Colin Russell (Cynrychiolydd LERC), David Jermyn (APCBB), Dawn Thomas (NWWT), Debbie Murphy (CEFAS), Gareth Bowen (Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr), Jennie Jones (CNC), Judith Oakley (Cyngor Sir Abertawe), Katie Havard-Smith (Prifysgol Caerdydd), Laura Grant (CNC), Laura Jones (Trafnidiaeth Cymru), Maggie Gill (APHA), Matt Tebbitt (Stitch in Time), Olaf Booy (APHA), Theresa Kudelska (CNC), Sean Hathaway (Cyngor Sir Abertawe)

**Ymddiheuriadau:** Kirsty Brown (YNGC), Louis Macdonald-Ames (Gwy ac Wysg), Niall Moore (GBNNS), Simon Roberts (RSPB), Tomos Jones (WaREN)

[Cynhyrchu Cynllun Bioddiogelwch trawsffiniol ar gyfer Aber Afon Hafren Rhywogaethau Estron Goresgynol a datblygu targedau bioamrywiaeth Gweithgarwch Cacynen Asia yn Lloegr eleni](#)  
[Diweddariadau Partneriaid](#)  
[Unrhyw Fater Arall](#)

## TROSOLWG O GAMAU GWEITHREDU

Cam Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Diweddariad
<b>Cynhyrchu Cynllun Bioddiogelwch trawsffiniol ar gyfer Aber Afon Hafren</b> 1. Dim camau gweithredu yn codi.			
<b>Rhywogaethau Estron Goresgynol a datblygu targedau bioamrywiaeth</b> 2. Dim camau gweithredu yn codi.			
<b>Gweithgarwch Cacynen Asia yn Lloegr eleni</b>			



Cam Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Diweddariad
3. Dim camau gweithredu yn codi.			
<b>Diweddariadau partneriaid</b> 4. Unrhyw un nad oedd wedi llwyddo i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, anfonwch un erbyn diwedd mis Hydref	PAWB		
<b>Unrhyw Fater Arall / Camau Nesaf</b> 5. Michaela i drefnu'r cyfarfod nesaf ar gyfer mis Mawrth 2024.	<a href="#">Michaela</a>		

### PWYNTIAU A CHAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Croesawodd Leasa Fielding bawb i'r cyfarfod, gan nodi ymddiheuriadau. Adolygwyd y rhestr o gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

#### Rhestr o gamau gweithredu o gyfarfod mis Mawrth 2023

1. Diweddariadau partneriaid: Unrhyw ddiweddariadau pellach i Michaela erbyn 22 Mawrth. **Wedi'i wneud**
2. Pawb i anfon cynlluniau Wythnos Rhywogaethau Estron Goresgynol at Tom Warren. **Wedi'i wneud**
3. Michaela i drefnu'r cyfarfod nesaf ar gyfer hydref 2023. **Wedi'i wneud**

#### Cynhyrchu Cynllun Biaddiogelwch trawsffiniol ar gyfer Aber Afon Hafren

Rhoddodd Katie Havard-Smith o Bartneriaeth Aber Afon Hafren gyflwyniad byr ar y prosiect hwn dan arweiniad rhanddeiliaid, a fydd yn arwain at gynllun biaddiogelwch rhyngweithiol byw ar gyfer yr Aber a gynhelir ar wefan Partneriaeth Aber Afon Hafren. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan CNC a Natural England ac, ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio ar fapio rhanddeiliaid a chynllunio gweithdai. Cynhelir gweithdai rhanddeiliaid wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd a Bryste ym mis Tachwedd, gyda chyfweiliadau un-i-un i ddilyn gyda rhanddeiliaid na allant ddod i'r cyfarfod. Bydd gweithdai dilynol yn cael eu cynnal yn y gwanwyn i adrodd ar gamau gweithredu posibl yn y dyfodol, a chytuno ar adnoddau.

#### Rhywogaethau Estron Goresgynol a datblygu targedau bioamrywiaeth

Rhoddodd Karen Stothard gyflwyniad ar ymrwymiad LIC i gyflwyno, yn nhmor y Senedd hon, ddeddfwriaeth i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru ac i gyflwyno dyletswydd a targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth. Cydnabu'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ([Datganiad Ysgrifenedig: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth \(3 Hydref 2022\) | LLYW.CYMRU](#)) yr angen i'r targedau natur hyn ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chyflawni cyfraniad Cymru at fframwaith bioamrywiaeth fyd-eang Kunming-Montreal ("y GBF").

Bydd y Bil yn cyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth a fydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio targedau presennol a/neu greu targedau newydd i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth. Bydd y Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth yn cynnwys:-



- Prif darged gyda'r nod o sbarduno uchelgais a chymau gweithredu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.
- Bydd y fframwaith targedau yn seiliedig ar y GBF i adlewyrchu'r dull ecosystemau a amlinellir yn ein deddfwriaeth bresennol a'n blaenoriaethau bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae meddwl cychwynnol ar dargedau posibl yn cynnwys y rhai sy'n seiliedig ar rywogaethau (digonedd) a chynefin (adfer, diogelu) yn amodol ar ddadansoddiad pellach.
- Monitro ac adrodd - Bydd angen i'r Bil nodi gofynion monitro yn y dyfodol (gan gynnwys dangosyddion ategol), adrodd ar y fframwaith targed.

Yna, rhoddodd Karen drosolwg byr o GBF Kunming Montreal isod, a nododd y cyfeirir yn benodol at rywogaethau estron goresgynnol yn Nrharged 6.

## Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework



**Vision**  
2050 - *"By 2050, biodiversity is valued, conserved, restored and wisely used, maintaining ecosystem services, sustaining a healthy planet and delivering benefits essential for all people."*

**Mission**  
2030 - *'To take urgent action to halt and reverse biodiversity loss to put nature on a path to recovery for the benefit of people and planet by conserving and sustainably using biodiversity and by ensuring the fair and equitable sharing of benefits from the use of genetic resources, while providing the necessary means of implementation'*

Wales and other signatories will be responsible for developing **updated National Biodiversity Action Plan** to help deliver targets.

Strengthen planning, monitoring and reporting - **Monitoring and reporting framework** with set of headline, component and complementary indicators

### 4 long term goals for 2050

A – Biodiversity

B – Sustainable use

C- Benefits sharing

D - Resource Mobilisation/implementation

### 23 action oriented global targets for urgent action to 2030

Targets 1-8 - *Reducing threats to biodiversity*

Targets 9-13 - *Meeting people's needs through sustainable use and benefit-sharing*

Targets 14-23 - *Tools and solutions for implementation and mainstreaming*

Yna, gosodwyd y GBF yng nghyd-destun bioamrywiaeth a fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru, gan gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Cynllun Adfer Natur, Deddf yr Amgylchedd Cymru a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNARR), ymysg eraill.


Roedd yr argymhellion ar gyfer gosod targedau Cymru yn cynnwys:

- Prif darged o 'Natur Bositif 2030' gydag adferiad natur llawn erbyn 2050
- Nodi bylchau, drwy fapio targedau, argymhellion a nodau presennol ar draws tirwedd wleidyddol Cymru yn erbyn targedau'r GBF i asesu lle mae'r rhain eisoes yn cael sylw rhannol a lle gallai fod bylchau y mae angen ysgrifennu targedau ar eu cyfer.
- 30x30
- Ysbrydoliaeth targed e.e. Mae Deddf yr Amgylchedd yn targedu bioamrywiaeth yn Lloegr megis digonedd rhywogaethau, risg o rywogaethau'n diflannu, creu / adfer cynefinoedd ehangach, a 70% o'r nodweddion dynodedig yn rhwydwaith yr MPA i fod mewn cyflwr ffafriol erbyn 2042, gyda chyflwr y gweddill yn gwella, ac adroddiadau ychwanegol ar newidiadau mewn cyflwr nodweddion unigol.



Rhaid i dargedau fynd i'r afael â'r problemau allweddol yng Nghymru. Mae SoNaRR 2020 eisoes wedi nodi llawer o'r materion allweddol yng Nghymru, a dylid manteisio arnynt wrth gynllunio camau gweithredu a dylunio targedau

Yna, edrychodd Karen ar eiriad Targed 6, a nododd ei fod yn cael ei fapio ar ddangosyddion lles cenedlaethol a deddfwriaeth, strategaeth a sbardunau polisi allweddol Cymru. Gofynnodd i'r grŵp pa fath o dargedau yr hoffent eu gweld yn cael eu cyflwyno mewn is-ddeddfwriaeth, gan nodi y bydd ymgynghoriad priodol yn digwydd yn ddiweddarach yn y broses, gan edrych ar dargedau cyffredinol a chwestiynau penagored i'w hystyried ymhellach yn y cyfnod hwn.



- Gofynnodd Olaf Booy a fyddai targed 6 yn flaenoriaeth i'w ddatblygu, a nododd Karen y byddai'r blaenoriaethau'n cael eu gosod mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a chydweithwyr polisi. Mae targed i'w gael ar lefel y DU yn barod, ac roedd Karen eisiau deall a oedd angen targed ychwanegol ar lefel Cymru. I ba raddau mae targed y DU yn cyfateb i'r GBF? Ymatebodd Olaf fod targed y DU yn fesuradwy am y tro cyntaf, ac roedd yn ystyried bod hynny'n werthfawr iawn ar gyfer mesur cynnydd, ac roedd yn teimlo y gellid cymhwyso'r targed presennol ar lefel gweinyddiaeth wladol, yn ogystal ag ar lefel y DU.
- Nododd Leasa Feilding mai strategaeth Prydain yw lleihau rhywogaethau estron goresgynnol 50% o gymharu â lefelau 2000, ond mai dim ond drwy waith trawslywodraethol ar y cynllun gweithredu a thrwy weithio mewn partneriaeth y cyflawnir hynny. Strwythurau da ar waith drwy ysgrifenyddiaeth Prydain.
- Nododd Olaf nad yw'r targed yn statudol ar hyn o bryd, a fyddai'n newid sylweddol.
- Gofynnodd Bev Lewis am y dadansoddiadau yn erbyn pob targed - moron yn erbyn ffon. Atebodd Karen trwy ddweud nad yw fframwaith Cymru yn y cam hwnnw eto, ond rhoddodd ddolenni i dargedau cyffredinol Kunming Montreal: [Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework \(cbd.int\)](https://www.cbd.int/kunming-montreal) gyda dolen benodol i Darged 6: [Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework](https://www.cbd.int/kunming-montreal) Gofynnodd Bev am y broses ymgynghori, dywedodd Karen fod LIC yn datblygu papur gwyn ar hyn o bryd, a fydd yn destun ymgynghoriad yn 2024, ond hoffai gael mewnbyn i'r broses nawr hefyd.
- Nododd Theresa Kudelska fod targed y GBF yn eithaf cymhleth, ac roedd yn teimlo bod angen llawer mwy o ddiffiniad er mwyn i ymarferwyr ddeall yr hyn yr oeddent yn mesur yn ei erbyn a sut beth fyddai llwyddiant. Nododd Karen fod



targedau'r GBF yn gynnyrch eang o drafod rhwng 190 o wledydd, felly mae angen eu gwneud yn benodol ac yn berthnasol i'r DU / Cymru.

- Nododd Leasa a Karen fod gwaith yn parhau gyda chyrrff technegol (e.e. RTG) i edrych ar y dangosyddion a sut y byddant yn cael eu mesur, felly bydd mwy o eglurder yn cael ei ddarparu unwaith y bydd eu canfyddiadau'n cael eu rhyddhau.
- Nododd Olaf y bydd angen canolbwyntio ar rywogaethau a allai ddod yn oresgynnol a'u hatal rhag sefydlu eu hunain, yn ogystal â rheoli a dileu rhywogaethau estron goresgynnol sydd yn y DU ar hyn o bryd, ac roedd yn teimlo y gallai hynny gael ei drosi i lefelau'r DU a chenedlaethol. Ni ellir dibynnu ar drafodaeth ryngwladol ar ddangosyddion, mae'r sgysiau hynny'n cael eu cynnal ar lefel y DU hefyd.
- Gofynnodd Alison Smith a oedd amserlenni'n mynd i fod yn broblem os oedd angen cyflwyno'r Papur Gwyn yn y cyfarfod llawn hwn, ac roedd y trafodaethau rhyngwladol yn parhau. Nododd Karen y byddai'r Papur Gwyn yn cyflwyno'r pwerau i osod targedau, ond y bydd y targedau eu hunain yn cael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd targedau Cymru yn bwydo i lefel y DU, y mae'n ofynnol eu gwneud a'u cyhoeddi erbyn mis Mai 2024, cyn COP16 mis Hydref. Nododd Karen fod angen adnewyddu'r Cynllun Adfer Natur i adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei wneud ar lefel Cymru. JNCC yn cydlynu llawer o'r gwaith hwn i ddod o hyd i dir cyffredin.
- Cadarnhaodd Leasa y bydd yn dal i fod yn 'INNS', nid 'invasive alien species'
- Nododd Olaf ei fod yn ymddangos bod rhywogaethau estron goresgynnol weithiau'n disgyn oddi ar y radar mewn trafodaethau bioamrywiaeth a bod angen eu blaenoriaethu fel bygythiad sydd ag ateb hylaw o ystyried y dull cydweithredol. Ymatebodd Karen mai'r nod yw nodi meysydd cyffredin lle gallwn gydweithio'n effeithiol, a bod rhywogaethau estron goresgynnol yn un o'r meysydd hynny.
- Nododd Alison effeithiau economaidd rhywogaethau estron goresgynnol ar ddatblygiadau a safleoedd blaenoriaeth – Karen ac Alison i gydweithio ar yr asesiad effaith i gyflawni dadansoddiad cost a budd ar y Papur Gwyn i gipio hynny. Mae Olaf hefyd wedi diweddarau gwybodaeth economaidd, ac mae doler yma: <https://link.springer.com/article/10.1007/s10530-023-03107-2>, amcangyfrif cost hynny oedd tua £1.8 biliwn y flwyddyn.
- Karen i gysylltu ymhellach â Leasa yn ystod y cam datblygu


### Gweithgarwch Cacynen Asia yn Lloegr eleni

Rhoddodd Maggie Gill ddiweddariad i'r grŵp am weithgarwch Cacynen Asia yn Lloegr eleni. Rhoddodd Maggie drosolwg o sut y cyrhaeddodd Cacwn Asia y DU, a pham eu bod yn rhywogaeth broblemus yn Ewrop. Yn y DU, mae breninesau yn ymddangos yn y gwanwyn ac yn adeiladu prif nyth ym misoedd Ebrill-Mai, yna caiff nythod eilaidd eu hadeiladu ym misoedd Mehefin-Awst. Mae breninesau yn paru ym misoedd Medi-Hydref ac yn gaeafgysgu dros y gaeaf.

Canfuwyd 13 nyth yn 2022, ar hyn o bryd mae 60 nyth wedi'u canfod hyd yma yn 2023. Yn bennaf yng Nghaint, ond mor bell i ffwrdd â Gogledd Swydd Efrog a Chernyw. Canfuwyd y nythod dri mis yn gynharach na'r blynnyddoedd blaenorol. Mae gwirfoddolwyr yn edrych ar adroddiadau o Gacwn Asia yn y lle cyntaf, gyda gorsafoedd abwyd yn cael eu defnyddio yn yr ardal, ond cyn gynted ag y derbynnir adroddiad credadwy, mae tîm APHA yn dinistrio'r nyth ac yn gwneud dadansoddiad genetig i asesu a yw'r nyth wedi cynhyrchu gwenynod gormesol a breninesau newydd, ac a yw'r nythod yn gysylltiedig.



Nododd Maggie mai'r broblem fwyaf oedd diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd, gyda phobl ddim yn sylweddoli bod y nythod yn perthyn i rywogaeth estron oresgynnol ac y gellir cael gwared arnynt am ddim. Gofynnodd i bawb godi ymwybyddiaeth yn eu cymunedau a nododd yr adnoddau sydd ar gael yma: [Asian Hornet » NNSS](#) ([nonnativespecies.org](http://nonnativespecies.org)). Mae taflenni adnabod a phosteri rhybudd Cymraeg hefyd ar gael ar wefan GBNNSS. Dangosir codau QR i adnoddau isod:



- Gofynnodd Bev Lewis pam roedd niferoedd wedi cynyddu gymaint - nododd Maggie fod y tywydd wedi bod yn ddelfrydol ar gyfer gwenyn meirch, gwenyn a chacwn.
- Gofynnodd Sean Hathaway pa gynefinoedd a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gartref i nythod. Yn ôl Maggie, mae dros 75% o nythod i fyny coed tal, ond gall y coed hynny fod mewn ysgolion, coedwigoedd, canol trefi - unrhyw le.
- Nododd Olaf a Maggie nad oes nyth wedi'i ganfod yng Nghymru hyd yma, ond ei fod yn debygol eu bod yma ond heb gael eu hadrodd.

### Diweddariadau Partneriaid

- Diweddariadau ysgrifenedig wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod, a byddant yn cael eu dosbarthu eto gyda'r cofnodion hyn.
- **GBNNSS:** Nododd Olaf fod cyfarfodydd y DU a Phrydain ar ddiwedd mis Hydref, a bod sgwrs yn digwydd ynghylch pa rywogaethau newydd y dylid eu hychwanegu at y rhestr o bryder arbennig. Ni ddisgwylir unrhyw ychwanegiadau ar hyn o bryd gan fod y broses yn parhau, ond mae'r pwyllgor eisoes wedi cytuno i dynnu rhai rhywogaethau oddi ar y rhestr. Bydd hyn yn digwydd unwaith y bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei rhoi ar waith. Mae dwy boblogaeth o'r llyg dant gwyn mwyaf wedi'u canfod yng ngogledd Lloegr, ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hynny ynghyd â'r planhigyn piserlys porffor. Mae IPBES (Intergovernmental Platform for Biodiversity and Ecosystem Services) wedi cyhoeddi asesiad rhyngwladol o effeithiau rhywogaethau goresgynnol a'u rheolaeth, gan gynnwys syniadau ar sut y gall llywodraethau, rhanddeiliaid, diwydiant preifat ac eraill weithio gyda'i gilydd i geisio mynd i'r afael â'r rhywogaethau.



- **Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr:** Nododd Gareth Bowen fod y cyngor yn gobeithio mapio rhywogaethau estron goresgynnol ar asedau'r cyngor, gan alluogi trosolwg da yn gyntaf o'r holl rywogaethau estron goresgynnol ar draws y sir a fyddai wedyn yn bwydo i mewn i gynllun gweithredu blaenoriaeth ar gyfer triniaeth ar draws y sir.
- **Trafnidiaeth Cymru:** Nododd Laura Jones fod Trafnidiaeth Cymru yn parhau i reoli rhywogaethau goresgynnol ar draws Rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, 220 cilometr o draciau dan reolaeth hirdymor. Cynnydd yn nifer yr hawliadau gan breswylwyr mewn perthynas â chlymog, o ganlyniad i hyn gwnaed rhywfaint o waith mapio hanesyddol a ddylai arwain at gyhoeddi papur technegol ochr yn ochr â dwy brifysgol sy'n edrych ar ledaeniad hanesyddol Clymog mewn perthynas â seilwaith trafndiaeth a rheilffyrdd yn benodol. Hefyd, datblygu strategaeth interim ar gyfer bioamrywiaeth buddion net ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, a fydd yn cynnwys paramedrau ar gyfer rhywogaethau goresgynnol fel rhan o'r DPA.

**Camau Gweithredu:** Unrhyw un nad oedd wedi llwyddo i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, anfonwch un erbyn diwedd mis Hydref a gellir cynnwys hyn gyda'r cofnodion pan gânt eu dosbarthu.

### Unrhyw Fater Arall

- Cyllid WaREN: Daeth cyllid SMS i ben ym mis Mehefin 2023, mae LIC wedi darparu cyllid dros dro tan ddiwedd mis Mawrth 2024, i roi amser iddynt ddatblygu ceisiadau pellach am gyllid.
- Rhywogaethau estron goresgynnol ac anifeiliaid anwes: Cynllun gweithredu posibl ar gyfer llwybr newydd i Brydain Fawr yn seiliedig ar ymgyrch barhaus yng Ngogledd Iwerddon. Gall anifeiliaid anwes ysglyfaethu ar fywyd gwyllt brodorol, cystadlu â phlanhigion ac anifeiliaid brodorol am adnoddau a chyflwyno a lledaenu clefydau. Cynnydd yn nifer yr anifeiliaid anwes egsoftig sy'n dod i mewn i Brydain, sydd â'r potensial i ddod yn oresgynnol os cânt eu rhyddhau neu os ydynt yn dianc i'r amgylchedd naturiol. Mae Be Pet Wise yn targedu perchnogion anifeiliaid anwes a masnachwyr anifeiliaid anwes, gan sicrhau eu bod yn ymddwyn yn gyfrifol gyda rhywogaethau anifeiliaid anwes drwy fabwysiadu rhai mesurau syml i atal rhywogaethau rhag dod yn oresgynnol ac, yn achos masnachwyr, annog eraill i gymryd camau priodol. Gan edrych o bosibl ar gael yr ysgrifenyddiaeth i redeg grŵp cynllun gweithredu llwybr i ddatblygu'r cynllun hwnnw a gwahodd partïon â buddiant.  
Taflen Be Pet Wise - [BePetWise-Leaflet V1 2023.pdf \(invasives.ie\)](#)  
Tudalen hafan Be Pet Wise - [Be Pet Wise - Invasives.ie](#)
- Tynnodd Leasa sylw at ddiweddariad LIC eu bod yn bwriadu ymgynghori ar ddiweddariad i'r cod ymarfer darpariaethau rheoli rhywogaethau, gan ddisgwyl iddo gael ei ryddhau cyn diwedd y flwyddyn.
- Cyfarfod rhywogaethau estron goresgynnol nesaf WBP i'w drefnu ar gyfer mis Mawrth 2024.

**Cam Gweithredu:** Michaela i drefnu'r cyfarfod nesaf ar gyfer mis Mawrth 2024.